Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych
Conwy and Denbighshire Care & Repair

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022 - 23

Better Homes, Better Health
Gwell Cartrefi, Gwell Iechyd

**Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych**
Uned 10 / 11, Ffordd Richard Davies, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy. Sir Ddinbych LL17 0LJ
Phone: 0300 111 2120 Fax: 0300 800 4485 post@gofalathrwsio.com

Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych Registered Charity Number 1171303 Company Number 9827000 Vat Reg No 379 5295 39

**Ein bwriad yw:** "Galluogi pobl hŷn neu bobl sy'n agored i niwed i barhau yn gysurus, diogel, cynnes ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain."

**Ein Gweledigaeth yw i fod yn:** "Brif ddarparwr gwasanaethau arloesol sy'n gwella ansawdd bywyd pobl hŷn neu bobl sy'n agored i niwed".

**Nod** Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yw galluogi pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain drwy wella lefelau cyflwr eu tai ac felly eu lefelau cysur, diogelwch, cynhesrwydd a lles.

## Llywodraethiant

Mae Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn is-gwmni i Grŵp Cynefin. Mae'r asiantaeth yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth craidd. Mae wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 ac fel elusen gofrestredig.

Mae Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn helpu perchnogion tai hŷn a thenantiaid preifat i atgyweirio, addasu a chynnal eu cartrefi. Trefnir ymweliadau cartref i drafod anghenion cleientiaid ac er mwyn nodi atgyweiriadau, gwaith cynnal a chadw neu addasiadau priodol, gan gynnig atebion, y costau tebygol a ffynonellau cyllid posibl.

Mae amcanion yr elusen er budd y cyhoedd, rhyddhad angen, salwch, anabledd ac iechyd gwael, yn enwedig, ond nid yn unig, ymhlith y rhai dros drigain oed ac sy'n byw yn ardaloedd Conwy a Sir Ddinbych.

Mae Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd ac yn cydymffurfio â Chôd Llywodraethu CCC.

## Bwrdd Rheoli 2022 - 2023:

| | |
|---|---|
| Gwynne Jones | **Cadeirydd** |
| Gwenan Carrington | **Is-Gadeirydd** |
| Bryn Ellis | **Ysgrifennydd Cwmni** (Cyfarwyddwr Adnoddau Grwp Cynefin) |
| Paul Quirk | **Aelod Bwrdd - Annibynnol** |
| Hannah Fleck | **Aelod Bwrdd a Rheolwr Gwasanaeth Llesiant Cymunedol CBS Conwy** (Ymddiswyddo Mawrth 2023) |
| Clifton Robinson | **Aelod Bwrdd – Annibynnol** |
| Claire Shiland | **Aelod Bwrdd – Annibynnol** |
| Aimee Tomalin | **Aelod Bwrdd – Annibynnol** |
| Melville Evans | **Aelod Bwrdd – Cynrychiolydd Grwp Cynefin** |
| Dafydd Lewis | **Aelod Bwrdd – Cynrychiolydd Grwp Cynefin** |
| Alexander Weick | **Aelod Bwrdd yn arsylwi** |



# Oeddech chi'n gwybod?

**Edrych yn ôl ar flwyddyn lwyddiannus arall yn darparu gwasanaethau Gofal a Thrwsio ledled Conwy a Sir Ddinbych yn ystod 2022 - 2023.**

**Rhai o'r uchafbwyntiau:-**

- Mae ein his-bennawd "Gwell Cartrefi, Gwell Iechyd" yn cydnabod bod tai gwael yn arwain at ansawdd iechyd gwael ac ansawdd bywyd gwael a'n bod yn gwneud gwahaniaeth trwy gydweithio â phartneriaid i wella bywydau llawer o bobl hŷn neu bobl agored i niwed yn caniatáu iddynt barhau i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain gyda chefnogaeth:-
  - Gweithiwr Achos Craidd / Gwasanaeth Technegol
  - Gwasanaeth Nam ar y Synhwyrau Ymdopi'n Well
  - Rhaglen Addasu Ymateb Cyflym
  - Gwasanaeth Adref o'r Ysbyty i Gartref Iachach
  - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a
  - Gwasanaeth Gwella Tai Gerddi Gwyrdd
- Yn ystod y flwyddyn cyfarfu ein Prif Swyddog â sawl Aelod Seneddol Lleol i drafod gwaith yr Asiantaeth
- Llwyddwyd i recriwtio Aelod Bwrdd i arsylwi a ymunodd â'n Bwrdd ganol y flwyddyn gyda'r bwriad o adolygu'r sefyllfa yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi 2023.
- Llwyddwyd i gyflwyno ein Gwasanaeth Gweithiwr Achos Adref o'r Ysbyty i Gartref Iachach gyda GTAGC – i ddarparu Gwasanaethau Cymorth Diogelwch yn y Cartref.
- Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu Gwasanaeth Gweithiwr Achos Cartref llwyddiannus gan hwyluso rhyddhau diogel o'r ysbyty i gartrefi sydd wedi derbyn addasiadau a gwasanaeth cymorth gwaith achos i helpu i atal aildderbyn i'r ysbyty.
- Llwyddwyd i gyflwyno Menter Cyngor ac Arweiniad ar Wresogi 70+ Gofal a Thrwsio Cymru. Mae 70+ Cymru yn brosiect partneriaeth Cymru gyfan a ariennir gan y Cynllun Gwneud Iawn am Gamweddau Ynni (Energy Redress Scheme). Darparodd gyngor a chymorth ar dechnegau arbed ynni yn y cartref a gwelliannau i dai, er mwyn i bobl hŷn allu gwresogi eu cartrefi. Llwyddodd y prosiect i ennill Gwobr Effeithlonrwydd Ynni
- Cymru am "Sefydliad Cymorth Cwsmeriaid Agored i Niwed Gorau'r Flwyddyn"
- Cwblhaodd staff ac aelodau'r Bwrdd nifer o gyrsiau hyfforddi yn ystod y flwyddyn, dyma enghreifftiau o'r rhain:-
- Cwblhaodd ein haelodau Bwrdd eu Hyfforddiant Rolau a Chyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch yn llwyddiannus
- Cwblhaodd Gweithredwyr Atgyweiriadau Bach Gerddi Gwyrdd eu Hyfforddiant Aseswyr Ymddiried yn llwyddiannus
- Cwblhaodd Gweithwyr Achos a Swyddog Technegol Gwrs Aseswr Ymddiried / Cwrs BTEC gloywi Asesu Mân Addasiadau yn llwyddiannus
- Bydd ein Cadeirydd yn cadeirio Cynhadledd Flynyddol Gofal a Thrwsio Cymru yng Nghaerdydd ym mis Medi 2023.



*Lynda Colwell a Gareth Davies MS*

# Rydym yn Darparu:

1 Ein **Gwasanaeth Gofal a Thrwsio Craidd** sy'n cefnogi perchenogion tai sy'n hŷn neu'n fregus i fyw mor annibynnol ag y bo modd yn fwy diogel, cynnes a chyfforddus, trwy ddarparu cyngor ynghylch lles, gwaith trwsio ac addasiadau i'w cartrefi.
Fe'i cyllidir gan Lywodraeth Cymru.

- Dywedodd 96% o bobl bod ansawdd eu bywyd wedi gwella yn dilyn derbyn gwasanaeth Gofal a Thrwsio.

2 Mae ein gwasanaeth **Ymdopi'n Well** yn rhoi gwybodaeth am ddim a help ymarferol i bobl hŷn, yn enwedig y rhai trwm eu clyw neu wan eu golwg, sydd â dementia neu dim ond os ydych eisiau help i aros gartref yn ddiogel ac ymdopi'n well.

- Cyfeiriwyd 340 o bobl at Ymdopi'n Well yn ystod y flwyddyn, gan gefnogi pobl sydd â nam neu yn drwm eu clyw.

3 Mae ein **Rhaglen Addasiadau Brys (RhAB)** yn fenter strategol gan Lywodraeth Cymru, i gynorthwyo pobl hŷn i ddychwelyd adref o'r ysbyty a /neu i wneud eu cartrefi'n fwy diogel, trwy ddarparu gwasanaeth trwsio neu addasu cyflym ar raddfa fechan, fel nad oes rhaid iddynt fynd i'r ysbyty.

- Derbyniodd 1,277 o glientiaid grant RhAB i addasu eu cartrefi a'u galluogi i fyw yno'n annibynnol.
- Gwnaed gwaith i 58% o gleientiaid RhAB i helpu i beri bod llai o bobl yn cael codwm.

4 Gall cartrefi ddirywio'n hawdd wrth i lefelau incwm leihau, ac mae ein **Gwasanaeth Gwella Cartrefi Gerddi Gwyrdd** yn un o brif ddarparwyr gwasanaethau sy'n gwella ansawdd bywyd pobl hŷn neu fregus.
Fe'i darperir gan dîm sy'n gwneud gwaith preifat, addasiadau, mân waith trwsio yn y cartref a'r ardd, yn gosod ystafelloedd ymolchi/ystafelloedd gwlyb ac yn gwneud gwaith saer sgiliedig.

Maent wedi eu hyfforddi i adnabod anghenion cleientiaid a'u hatgyfeirio am gymorth gan ein gwasanaethau Craidd neu RhAB.

- Cwblhawyd 41 o dasgau addasu ystafelloedd ymolchi gan Gerddi Gwyrdd.
- Cwblhawyd 246 o dasgau Gerddi Gwyrdd oedd wedi eu cyllido yn breifat gyda chyfanswm cost o £357,712

5 Mae ein **Gwasanaeth Adre o'r Ysbyty** wedi cynorthwyo hyd yn oed mwy o ddeiliaid tai, gan **arbed nosweithiau gwely mewn ysbyty ar gost o £300 yr un** i'n partner, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae pob **£1 sy'n cael ei wario gan GThCSDd yn arbed £7.50 mewn costau iechyd** –300 i 400 o welyau bob nos mewn ysbyty, er enghraifft.

- Derbyniwyd 484 o gyfeiriadau Adre o'r Ysbyty.
- Roedd 380 o'r cyfeiriadau yn cefnogi dychwelyd o'r ysbyty yn saff.

6 Mae ein Swyddog Cyngor ac Arweiniad ar **Ynni 70+ Cymru** yn gweithio gyda Phrosiect 70+ Gofal a Thrwsio Cymru gan roi cyngor a chymorth ar dechnegau arbed ynni cartref a gwelliannau tai, fel y gall pobl hŷn gynhesu eu cartrefi i dros 70F.

- Yn ystod Ebrill 2022 – Mawrth 2023 fe wnaethom helpu 178 o gleientiaid gydag ymholiadau a cheisiadau yn ymwneud yn uniongyrchol â 70+ yn ogystal â darparu cyngor cyffredinol ar grantiau gwresogi a mesurau effeithlonrwydd ynni.



## Cynllun Adref o'r Ysbyty i Gartref Iachach

Cynllun cyfeirio sydyn ac uniongyrchol "Adref o'r Ysbyty i Gartref Iachach" a ddarperir gan Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych gyda chefnogaeth BCUHB.

Mae'r Cynllun adref o'r Ysbyty i Gartref Iachach yn sicrhau bod addasiadau hanfodol yn cael eu gwneud i gartref cleifion fel y gellir eu rhyddhau o'r ysbyty yn ddiogel. Mae Gerddi Gwyrdd wedi bod yn arloesol wrth ddod o hyd i atebion i sicrhau ein bod yn diwallu holl anghenion y cleient.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i helpu cleifion i ddychwelyd adref o'r ysbyty, gan gynorthwyo i leihau'r pwysau ar welyau ysbyty a chynnig cymorth parhaus i'r claf. Yn dilyn rhyddhau o'r ysbyty trefnir ymweliad dilynol gan ddefnyddio ein rhestr wirio cartrefi iach i sicrhau bod ein clientiaid yn parhau yn ddiogel. Mae'r cynllun yn caniatáu i bobl hŷn barhau i fyw'n annibynnol, ac atal derbyniadau yn y dyfodol oherwydd dychwelyd i gartref anaddas neu anniogel.

- **Gwneud 380 Gwelliant / Addasiad i Gartrefi a hwylusodd ryddhau o ysbyty.**
- **297 yn dweud fod yr addasiadau wedi eu helpu i ddychwelyd adre a byw'n annibynnol.**
- **Helpu 484 o gleifion**
- **Galluogodd y cynllun arbediad o 2,280 o ddyddiau gwlau**
- **Cynnal 399 o wiriadau cartref iach a 249 ymweliad dilynol gan Weithiwr Achos.**

## Adborth Clientiaid

*"Ymdopi'n llawer gwell, mae'r rheiliau yn helpu'n fawr – roedd y gweithiwr wnaeth ei osod yn dda iawn, taclus iawn, dim llanast."*

*"Mi oeddwn i'n hynod fodlon gyda'r holl wasanaeth gan G & Th gan gynnwys yr ymateb cyflym, ansawdd y gwasanaeth a'r gwasanaeth cwsmer gan y gweithiwr wnaeth y gwaith."*

*"Hollol wych, hapus iawn, gwneud cymaint o wahaniaeth cael tapiau lifer ar gyfer fy arthritis."*

*"Cefais fy llorio gan garedigrwydd pawb. Rydw i wedi ei chael hi'n anodd cael help erioed gan fy mod i'n berchen ar fy nghartref fy hun."*



*"Gan fy mod wedi cael y fraint o nyrsio pobl yn ôl i iechyd mae'n galonogol i mi wybod fod pobl yn y proffesiwn gofalu sy'n wirioneddol fynd gam ymhellach i sicrhau ansawdd bywyd ar gyfer pobl fel fi."*

*"Doeddwn i ddim yn sylweddoli fod gymaint o angen y reilen uwchben y bath arna i, rydw i'n ei gael yn hynod ddefnyddiol a fyddwn i ddim yn gallu gwneud hebddo erbyn hyn, roedd y dyn yn daclus iawn, yn glanhau ar ôl ei hun ac roedd yn bleser ei gael yn y tŷ. Bydd y Lwfans Gweini yn gwneud gwahaniaeth mawr y gaeaf yma. Dydw i ddim yn poeni gymaint am y biliau nawr."*

*"Methu diolch digon i chi, mae Gofal a Thrwsio wedi mynd gam ymhellach i fy helpu."*

*"Anhygoel! Diolch i bawb am yr hyn maen nhw wedi ei wneud mor gyflym i ni."*

*"Dim ond eisiau diolch i chi i gyd am eich gwaith caled a'r holl gefnogaeth rydych chi'n ei roi i'n cleifion lliniarol – rydym ni'n wirioneddol werthfawrogi eich ymatebion cyflym i'n ceisiadau brys ac eisiau i chi wybod ein bod ni yn sylwi."*

# Gwell Cartrefi, Gwell Iechyd

## Helpu pobl hŷn i barhau'n ddiogel, yn gynnes ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain

Ffoniwch ni ar
0300 111 2120

**Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych**
**Conwy and Denbighshire Care & Repair**

Dywedodd **96 %** o gleientlaid eu bod yn teimlo yn fwy annibynol a hyderus o ganlyniad i wasanaeth Gofal a Thrwsio

**15 diwrnod**
Ar gyfartaledd, caiff gwaith y Rhaglen Addasiadau Brys ei gyflawni o fewn

**£1 → £7.50**
Am bob £1 a wariwyd ar y Rhaglen Addasiadau Brys, arbedwyd £7.50 ar gyllidebau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Rydym wedi hwyluso gwaith trwsio ac addasiadau preifat gwerth £302,586

**£1,098,885**
Helpu **282** o bobl i gynyddu eu hincwm a oedd werth £1,098,885 y flwyddyn

**1,933**
Nifer o bobl rydym wedi eu helpu

**79**
Oedran cyfartalog y bobl a gynorthwywyd

**98 %** o glientiaid yn fodlon iawn â'r gwasanaethau a ddarparwyd gan Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych

**98 %** a fyddai'n argymell gwasanaeth Gofal a Thrwsio i eraill

**58 %**
Fe wnaethom helpu 60% o bobl gyda gwaith i geisio lleihau codymau

**127 7**
Nifer o bobl a gafodd gymorth gyda'r grant Rhaglen Addasiadau Brys i addasu eu cartrefi i'w galluogi i barhau i fyw'n annibynnol

**Ffigyrau 2022/2023 ar gyfer Gwasanaeth HIA Sir Ddinbych a'r Rhaglen Addasiadau Brys**

GIG Cymru NHS Wales — Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board | Grŵp Cynefin — Mwy na thai • More than housing | Care & Repair Cymru | Gwasanaeth Tân ac Achub Fire and Rescue Service | Noddir gan Lywodraeth Cymru — Sponsored by Welsh Government

# Y Gwasanaeth Tai i Bobl Hŷn

## Helpu pobl hŷn i barhau'n ddiogel, yn gynnes ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain

Ffoniwch ni ar
0300 111 2120

**Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych**
**Conwy and Denbighshire Care & Repair**

289 Cyfanswm nifer o Wiriadau Cartefi Iach

**340** Nifer y cyfeiriadau Ymdopi'n Well yn cefnogi pobl â nam golwg neu glyw.

> Yn ymdopi'n llawer gwell. Mae'r rheiliau o gymorth mawr. Roedd y gweithiwr yn daclus iawn.

> Roeddwn yn fodlon iawn gyda'r holl wasanaeth gan Gofal a Thrwsio yn cynnwys yr ymateb buan, safon y gweasanaeth ar gwasanaeth cwsmer.

> Hollol wych, rwyf mor hapus! Mae'r tapiau o gymorth mawr i fy nghryd cymalau

> Roeddwn yn methu credu mor glen oedd pawb. Mae'n anodd cael cymorth pan yn berchen eich cartref eich hun.

> Wedi cael y fraint o weithio fel nyrs mae'n codi fy nghalon i wybod bod unigolion yn parhau yn y proffesiwn sy'n fodlon mynd y filltir ychwanegol i sicrhau ansawdd bywyd i bobl fel fi.

**484**
Nifer y cyfeiriadau Ysbyty i'r Cartref a dderbyniwyd. Roedd 380 ohonynt yn addasiadau i alluogi rhyddhad diogel o'r ysbyty a arweiniodd at arbediad

o 2,280 o ddyddiau gwlau.

**41** Cyfanswm addasiadau ystafelloedd ymolchi a gwblhawyd gan Gerddi Gwyrdd

997 Cyfanswm gwaith addasiadau a gwblhawyd ac eithrio gwaith addasiadau brys

**246**
Nifer y gwaith preifat a a gwblhawyd gan Gerddi Gwyrdd gwerth £357,712

**Ffigyrau 2022/2023 ar gyfer Gwasanaethau Gwelliannau i'r Cartref Gerddi Gwyrdd Conwy a Sir Ddinbych**

Gerddi Gwyrdd Home Improvement Services | Conwy — Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy County Borough Council | sir ddinbych denbighshire — Cyngor County Council | DVSC CGGSDd | Care & Repair Cymru | Noddir gan Lywodraeth Cymru — Sponsored by Welsh Government

# Perfformiad Ariannol

| | 2022/23<br>£ | 2021/22<br>£ |
|---|---|---|
| **CRYNODEB O'R CYFRIF INCWM A GWARIANT** | | |
| Incwm | 1,500,758 | 1,301,047 |
| Gwariant | (1,395,007) | (1,131,372) |
| **Gwarged / Diffyg am y flwyddyn** | 105,751 | 169,675 |

| | 2022/23<br>£ | 2021/22<br>£ |
|---|---|---|
| **CRYNODEB O'R FANTOLEN** | | |
| Asedau sefydlog | 15,265 | 6,566 |
| Asedau cyfredol | 875,426 | 737,096 |
| Rhwymedigaethau Cyfredol | (102,649) | (61,371) |
| **Asedau Net** | 788,042 | 682,291 |
| Cronfa Refeniw | 763,897 | 678,146 |
| Cronfa wedi ei chyfyngu | 24,145 | 4,145 |
| **Cyfanswm Cronfeydd** | 788,042 | 682,291 |